Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams **ar 9 Medi 2024** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd) Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) a Sioned Jones (Cyfieithydd) a chwe Aelod o'r cyhoedd.

**50/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Beverley Jones, Cyng. Meic Pattison a'r Cyng. Lisa Toth.

**51/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**52/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Cafodd y Cyngor gyflwyniad ar Adeiladu Pontydd Cyfeillgarwch, gan gynrychiolwyr Cymdeithas Jamaica Gogledd Cymru. Roedd y Gymdeithas wedi llwyddo i gael cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect, a oedd yn ceisio creu cysylltiadau agosach rhwng Bangor a May Pen, yn Jamaica.

Yn dilyn y cyflwyniad deng munud cafwyd sesiwn holi ac ateb. Diolchodd y Cyngor i'r cynrychiolwyr am y cyflwyniad.

**53/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 22 GORFFENNAF 2024.**
**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2024 fel cofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor.

**54/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.*
Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig, a oedd yn manylu ar fentrau a phrosiectau'r Cyngor, wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. O'r eitemau yn yr Adroddiad, tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Cyngor at y canlynol:

i) Croesawodd y Cyfarwyddwr Dinesig bawb yn ôl ar ôl toriad yr haf gan obeithio fod y Cynghorwyr wedi mwynhau seibiant braf.
ii) Atgoffwyd y Cynghorwyr fod Sul y Maer eleni yn cael ei gynnal ar 22 Medi, ac y byddai'n cynnwys gorymdaith drwy'r Stryd Fawr. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr oedd yn bwriadu bod yn bresennol fod yn Neuadd y Penrhyn erbyn 10.30 am i gasglu eu gwisgoedd.
iii) Dechreuodd rheolwr newydd Bangor yn Gyntaf (BID gynt) yn ei swydd ym mis Mehefin ac i gadarnhau'r berthynas waith agosach rhwng Bangor yn Gyntaf a Chyngor y Ddinas, o 1 Medi mae'r rheolwr hwn wedi'i leoli yn Swyddfeydd Cyngor y Ddinas.

iv) Ers y cyfarfod diwethaf mae Cyngor y Ddinas wedi bod yn gweithio gyda grŵp cymunedol newydd, a sefydlwyd i reoli Caeau Dargie. Bu'r Cyngor yn cynorthwyo'r grŵp hwn i lwyddo i gael grant o £5,500 i ddatblygu'r lleoliad.

v) Dywedwyd wrth y Cyngor bod angen symud y cyfarfod oedd wedi'i drefnu ar gyfer 14 Hydref, a'i gynnal yr wythnos ganlynol yr un noson âr Cyfarfod Asedau. Roedd hyn oherwydd fod gan y swyddogion hyfforddiant a chynadleddau.

**55/24 CYMERADWYO SEFYDLU CYNGOR DINAS BANGOR YN ARWEINYDD PROSIECT AR BROSIECT MORWROL BANGOR**

*Roedd y Cyngor wedi cael cyflwyniad ar y pwnc hwn yn y cyfarfod diwethaf ac roedd y cynnig grant cysylltiedig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau*

Mae Prosiect Morwrol Bangor yn brosiect addysg sawl cam a gynlluniwyd i sefydlu canolfan ddysgu Forwrol i helpu i ymgysylltu â phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Yr uchelgais yw ariannu'r proisect hwn sy'n werth miliynau o bunnoedd drwy grant dau gam gan Dreftadaeth y Loteri. Gofynnwyd i Gyngor Dinas Bangor fod yn arweinydd sylfaen ar gyfer y prosiect hwn.

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig yn helaeth ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau.

**Penderfynwyd:** gwrthod y cynnig i arwain y prosiect hwn gan nad oes gan y Cyngor yr adnoddau na'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol ond parhau i gynnig cefnogaeth cymaint ag y gall.

**56/24 CYMERADWYO'R CYNNIG I GYNNAL A CHADW'R GERDDI BEIBLAIDD YN Y DYFODOL.**

Adroddwyd, yn dilyn misoedd o drafodaethau rhwng Cyngor Gwynedd, Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant, Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a Chyngor y Ddinas ynglŷn â dyfodol y Gerddi Beiblaidd, bod cynnig, a archwiliwyd gyntaf fis Rhagfyr diwethaf, wedi cael ei gytuno gan y partïon eraill. Roedd y cytundeb hwn yn golygu y byddai Cyngor Gwynedd yn chwilio am gyllid grant i uwchraddio'r gerddi a Chyngor y Ddinas yn cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith uwchraddio a chynnal a chadw parhaus y Gerddi o dan gytundeb hirdymor gyda'r Gadeirlan, a fyddai'n cynnwys cymal terfynu bob pum mlynedd.

**Penderfynwyd:** cymeradwyo'r cynnig i fabwysiadu cynnal a chadw'r Gerddi Beiblaidd yn y tymor hir.

**57/024 DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-2025**

*Roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau*

Trafodwyd Adroddiad Blynyddol y Cyngor, a oedd yn cynnwys manylion ei amcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Atebodd Cyfarwyddwr y Ddinas gwestiynau ar y ddogfen a rhannau o'i chynnwys.

**Penderfynwyd:** derbyn Adroddiad Blynyddol 2024 -2025 a chymeradwyo ei gyhoeddi.

**58/24 YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR NEWID Y SYSTEM BLEIDLEISIO I BLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY**

*Roedd manylion ymgynghoriad Cyngor Gwynedd i fabwysiadu newid pleidleisio i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy wedi eu hanfon ymlaen llaw.*

Trafododd y Cyngor yn fyr yr ymgynghoriad gan Gyngor Gwynedd i fabwysiadu'r system a ddefnyddir yn yr Alban, sef Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

**Penderfynwyd:** annog pob Cynghorydd i ymateb i'r ymgynghoriad yn unigol.

**59/24 RHOI PŴER I'R PWYLLGOR CYLLID I GYMERADWYO GWARIANT O FEWN Y GYLLIDEB GYMERADWY A HYD AT £5,000.**

Cynigiwyd, er mwyn lleihau dyblygu eitemau sy'n ymddangos ar raglen y Pwyllgor Cyllid ac yna eto ar raglen y Cyngor, bod y Pwyllgor Cyllid yn cael awdurdod i gymeradwyo gwariant o hyd at £5,000, ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb flynyddol. Byddai hyn yn arbed amser. Yn dilyn trafodaeth fer, dadleuwyd y dylai'r Pwyllgor Cyllid barhau i fod yn bwyllgor goruchwylio yn unig ac na ddylai gael unrhyw awdurdod gweithredol.

**Penderfynwyd:** peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.

**60/24 I YMATEB I GAIS AM GYFEILLGARWCH/GEFEILLIO GAN**

I) MAI PEN JAMAICA,

Ymhellach i'r cyflwyniad ar ddechrau'r cyfarfod, trafodwyd cais ffurfiol gan May Pen yn Jamaica am gysylltiadau agosach gyda golwg ar drefniant gefeillio tref gyda Bangor. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu grant i archwilio'r cynnig hwn ymhellach. Cafwyd dadl drylwyr.

**Penderfynwyd:** cymeradwyo datganiad ffurfiol o Gyfeillgarwch rhwng Dinas Bangor a May Pen ac adolygu trefniant gefeillio tref ymhen pum mlynedd.

II) ROCHE-LA-MOLIERE, FFRAINC.

Hysbyswyd y Cyngor bod cais i ystyried gefeillio trefi hefyd wedi dod i law gan Roche-La-Moliere yn Ffrainc.

Yn dilyn trafodaeth fer

**Penderfynwyd:** ymchwilio i ddatganiad ffurfiol o Gyfeillgarwch rhwng Dinas Bangor a Roche La Moliere gyda golwg ar efeillio tref yn ddiweddarach.

**61/24 AILSEFYDLU CYSTADLEUAETH BANGOR YN EI BLODAU**

Cynigiwyd bod Cyngor y Ddinas yn ail sefydlu cystadleuaeth Bangor yn ei Blodau mewn pryd ar gyfer haf 2025. Roedd y syniad wedi ei osod ar gyfryngau cymdeithasol mewn rhai ardaloedd o'r Ddinas ac adroddwyd bod ymatebion cadarnhaol iawn wedi dod i law. Roedd nifer o drigolion lleol wedi cynnig cynorthwyo gyda'r trefniadau. Roedd y goblygiadau cost i'r Cyngor yn fach iawn y tu hwnt i adnoddau staff i sefydlu'r gystadleuaeth a rhoi cyhoeddusrwydd iddi.

**Penderfynwyd:** ail sefydlu Cystadleuaeth Bangor yn ei Blodau ar gyfer 2025.

**62/24 YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR Y CDLl AR GYFER ARDAL BANGOR.**

Adroddwyd bod yr ymgynghoriad ar agor ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol nesaf. Bydd y Cynllun, unwaith y caiff ei gymeradwyo, yn llywodraethu polisi cynllunio am y pum mlynedd nesaf. Bydd y polisi hwn yn effeithio ar lu o faterion perthnasol ledled y Ddinas, gan gynnwys nifer yr HMOs, sefydlu eiddo preswyl yng Nghanol y Ddinas ac ati.

**Penderfynwyd:** y dylai pob Cynghorydd gymryd yr amser i ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad a dylai'r Cyngor drefnu gweithdy i'w drafod yn fanylach.

**63/24 CAIS CYNLLUNIO**

**i.** Cais cynllunio C24/0638/11/TC - 2 Ffordd y Tywysog , Bangor - Cais am Dystysgrif Datblygu i ddefnyddio'r eiddo cyfan ar gyfer Amlfeddiannaeth.

**Roedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais hwn ar y sail bod gormodedd o Dai Amlfeddiannaeth yn yr ardal honno o'r Ddinas.**

**ii.** **C24/0672/11/DT** – 21 Lôn Y Gogarth – Estyniad unllawr a deulawr yn y cefn.
**Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CYFARWYDDWR DINAS